

2014 Rhif 13

HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

**Gorchymyn Diwygiedig
Brynhenllys (Atal Dros Dro
Hawliau Tramwy Cyhoeddus)
(Dirymu) 2014**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Diwygiedig Brynhenllys (Atal Dros Dro Hawliau Tramwy Cyhoeddus) 1993.

2014 Rhif 13

HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

Gorchymyn Diwygiedig Brynhenllys (Atal Dros Dro Hawliau Tramwy Cyhoeddus) (Dirymu) 2014

Gwnaed 28 Ebrill 2014

Yn dod i rym 29 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 15 o Ddeddf Glo Brig 1958(1) ("y Ddeddf") ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2).

At ddibenion adran 75 o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod yr amod yn adran 15(4)(b) wedi ei fodloni.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diwygiedig Brynhenllys (Atal Dros Dro Hawliau Tramwy Cyhoeddus) (Dirymu) 2014.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Ebrill 2014.

(3) Mae'n gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Mae Gorchymyn Diwygiedig Brynhenllys (Atal Dros Dro Hawliau Tramwy Cyhoeddus) 1993 wedi ei ddirymu.

(1) 1958 p.69.

(2) Trosglwyddodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15 o Ddeddf Glo Brig 1958, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2, Atodlen 1, ac maent bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, p.32.

Jon Westlake

Pennaeth Isadran Chwaraeon, Hamdden Awyr Agored
a Thirwedd o dan awdurdod y Gweinidog Diwylliant a
Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

28 Ebrill 2014